

Cylchlythyr Haf 2015

Wele rifyn yr Haf o Aur Winiadau – gobeithio fod y diwyg newydd yn plesio.

### **Y Cwrs Preswyl**

Fe welwch fod yna wir ganolbwyntio ar yr hyn sydd gan yr hyfforddwraig i'w ddweud yn y cwrs! Mwy o fanylion tu mewn.

### **Gair o'r Gadair**

Wel mae'n amser edrych ymlaen at weithgareddau'r haf unwaith eto. Gobeithio bydd y tywydd wedi sylweddoli ei bod hi yn haf erbyn i chi ddarllen y neges yma!  
Eto eleni bydd gan y gymdeithas stonin yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolch i aelodau Meirionydd am gytuno i osod yr arddangosfa a diolch i bob aelod fydd wedi cyflwyno darn o waith i'w arddangos ac i'r rhai hynny fydd wedi paratoi eitemau i werthu ar y stonin. Bellach mae hwn yn ffynhonnell ariannol bwysig i'r Gymdeithas i sicrhau ein bod yn gallu talu am ein safle yn yr Eisteddfod.

Ni fydd themâu i'r stonin eleni, ond gofynnwn yn garedig i chi beidio cyflwyno darn o waith i'w arddangos os ydi o wedi bod ar y stonin o fewn y ddwy flynedd diwethaf. Yn ôl bob sôn mae gan Eisteddfodwyr gof da!

Siomedigaeth a gafwyd eto eleni gan na ddyfarnwyd ysgoloriaeth y Gymdeithas. Felly, os gŵyl unrhyw aelod am fyfyrwr sydd yn astudio tectiliau ar lefel diploma/gradd, anogwch hwy i ymgeisio am yr ysgoloriaeth.

Datblygiad newydd sydd ar y gweill yw creu gwefan newydd ar gyfer y Gymdeithas.

Gobeithir y bydd y wefan yn fyw yn ystod y misoedd nesaf. Os oes gennych eitemau, lluniau ar gyfer y wefan, cysylltwch ag unrhyw un o'r swyddogion.

Cyn cloi, hoffwn ddiolch am y cyfle i fod yn gadeirydd y Gymdeithas. Hoffwn ddiolch i'm cyd swyddogion am eu gwaith diflino yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ac i ddymuno'n dda i'r swyddogion newydd a fydd yn cychwyn ar y gwaith ar ôl yr Eisteddfod.

Welwn ni chi i gyd ym Meifod.

Anwen

### **CWRS PRESWYL PLAS TAN Y BWLCH 2015**

Cynhaliwyd y Cwrs Preswyl eleni ym Mhlas Tan y Bwlch dros y penwythnos 7 – 8 Mawrth. Roedd 14 o aelodau ar y cwrs, rhai am y penwythnos i gyd, ac un neu ddwy ond am y dydd Sadwrn yn unig. Testun y cwrs y tro yma oedd 'Brodio'r Pethau Bychain' a'r syniad oedd gwneud anrhegion bychain wedyn i werthu ar y stonin yn Eisteddfod Genedlaethol mis Awst ym Meifod.

Roedd y cwrs dan ofal Rhiannon Parry a gwnaethpwyd ffeltio gwlyb a ffeltio sych, cardiau at wahanol achlysuron a broetsus, a'u haddurno gyda gwahanol bwythau. Cafwyd croeso a bwyd arbennig gan Blas Tan y Bwlch fel arfer a phawb wedi cael amser difyr iawn.

Diwedd digon anodd gafwyd i'r cwrs er hynny, gan i ni glywed am farwolaeth mab Rhiannon ar y bore Sul ac anfonwn ein cydymdeimlad diffuant ati hi a'r teulu yn eu profedigaeth.

Os ydych am benwythnos o bwytho, bwyta a chymdeithasu'r flwyddyn nesaf, cofiwch am y penwythnos 5 – 6 Mawrth 2016, cwrs dan ofal Cefyn Burgess. 'Adeiladau' fydd ei thema ac edrychwn ymlaen yn arw am y cwrs hwn hefyd, felly cynta' i'r felin fydd hi!

Nesta Jones

## **Brodwaith Patagonia**

Fe gofiwch i ni gael hanes y Brodwaith yn y rhifyn diwethaf o Aur Winiadau. Mae'r gwaith bellach yn cael ei arddangos yn Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog. Yna bwriedir ei anfon i Batagonia gyda mintai Carwyn Jones ar gyfer GŶyl y Glaniad.

## **O Ardal i Ardal**

### **RHANBARTH Y CANOLBARTH**

Dyma ni wedi cyrraedd canol haf a'n rhaglen am y flwyddyn wedi'i chwblhau.

Ers y Nadolig cawsom ddau gwrs. Fis Ionawr fe fentrodd tair ohonom i gynnal y cwrs. Gweddnewid papur brown oedd ein menter. Yn y bore buom yn paentio a gludo papur brown a chael llawer o hwyl gan gofio am ddyddiau plentyndod. Yna yn y prynhawn gwnaethom ddefnydd ohono a chynhyrchu eitemau megis pwrs, câs nodwyddau, câs llyfr, a llyfrnod. Digon a hwyl a llawer o gynhyrchion wedi'u gorffen i fynd adre.

Yna ym mis Ebrill daeth Jean Eklund (un arall o'n haelodau) atom i wneud biscornu. Cawsom ryddid i ddewis patrwm gyda'r canlyniad fod amrywiaeth hyfryd ohonynt a phob un yn wahanol. Mae'n braf cael rhannu o wybodaeth crefftwaig megis Jean.

Blwyddyn ddifyr a diddorol a nawr edrychwn mlaen at ein trip blynyddol. Gobethiwn fynd i Lamed eleni ac i Ganolfan Cwiltiau Jen Jones i weld arddangosfeydd Cefyn Burgess ac Eirian Short. Ac fe fydd pryd o fwyd rhywle ar hyd y ffordd! Den ni'n barod ar gyfer y flwyddyn nesa hefyd! Wele ein rhaglen o dan y Gweithgareddau

## **MÔN AC ARFON**

Dathlwyd yr Hen Galan mewn steil – cinio yn y Victoria, Porthaethwy yng nghwmni Hannah Roberts, enillydd Ysgoloriaeth 2012. Roedd yn bleser gweld gwaith Hannah, ac edrychwn ymlaen at ei hail ymweliad ym Medi pan fydd yn cynnal gweithdy gyda ni yn Nhan Lan. Trefnwyd Sach Santa hefyd, gyda phawb yn gwneud rhywbeth bach yn anrheg i'r naill a'r llall a thalu £5 y pen er budd Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Lora Jones, merch ifanc o'r Groeslon oedd yn gyfrifol am weithdy mis Chwefror, a wir, cafodd yr aelodau hwyl ryfeddol ar wau gyda weiren a phlethu gleiniau amryliw i galonau bach dela welwyd erioed.

Cafodd yr aelodau fodd i fyw yng ngweithdy Mary Mars Lloyd a Llinos Roberts yn Ebrill, a phob aelod yn mynd adref gyda broets gotwm ddel ar ei llabed.

Er nad oedd yn hwylus i lawer o'r ffyddloniaid fod yn bresennol yng nghyfarfod Mai roedd yn braf cael croesawu dwy aelod newydd – Jane o Rostrehwfa a Hilma o'r Bontnewydd. Cynhaliwyd sesiwn o dan arweiniad Rhiannon Parry yn ymarfer ffeltio sych/ffeltio nodwydd i greu gwahanol wrthrychau. Defnyddiwyd deunyddiau amrywiol i'r diben hwn gan gynnwys torwyr bisgedi a defnydd toddadwy, cyn mynd ati i'w haddurno â gwahanol bwythau. Ariannwyd y gweithdai hyn gan Gronfa'r Loteri Fawr.

### **Pwytho at Achos Da**

Mae nifer o'r aelodau wedi bod yn brysur yn gwnïo cwilt i'w rafflo er budd yr Ambiwlans Awyr. Cytunodd Megan Williams i'w helpu i'w gwblhau, a hoffai'r rhai fu wrth y gwaith ddiolch yn gynnes iddi am ei llafur. Cofiwch brynu tocyn!

### **Trip y Flwyddyn**

Yn ystod penwythnos olaf Ebrill ymunodd nifer o aelodau Cangen y Gogledd Ddwyrain gyda chriw Arfon a Môn ar daith dwy noson i Gaerdydd. Bore Sadwrn cafwyd cyfle i weld yr arddangosfa o waith y frodweithreg o'r Is-Almaen, Tilleke Schwarz yn Crefftau yn y Bae, a braf oedd gweld ambell i gymal yn y Gymraeg wedi'i ymgorffori i'w gwaith ar liain main hyfryd. Treuliwyd y pawns yng nghwmni Elen Philips, Prif Guradur Tecstilïau Sain Ffagan a ddangosodd i ni ddillad ac arteffactau yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd y presennol.

Rhyfeddodd pawb at gywreinder y brodio ac at ddawn dweud Elen. Bore Sul gwelwyd gwledd arall o frodwaith yng Ngardd Fotaneg Cymru – gwaith brodweithwyr lleol yn darlunio blodau a phlanhigion cynhenid.

### **Cloi'r Tymor**

Aeth llond bws ar yr ail Sadwrn ym Mehefin i weld arddangosfa Patagonia 150 yn Oriol Glyn y Weddw, Llanbedrog, ac yna ymlaen i Nant Gwrtheyrn i gael cip ar y fferm o waith gwau a gwnïo rhai o'r aelodau a gynhyrchwyd o dan arweiniad Margaret Jones a'i merch Jane Temple Morris o Dregarth. Ariannwyd y ddwy daith gan Gronfa'r Loteri Fawr.

### **CANGEN Y GOGLEDD DDWYRAIN**

Dathlwyd y Nadolig gyda chinio a rhannu anrhegion yn y Bod Erw, Llanelwy. Cawsom gyfle i weld gwaith gwych gan aelodau oedd wedi cael llwyddiant yn Ffair Aeaf.

Ym mis Chwefror cynhaliwyd gweithdy gan Ann Jones – bocs o ddefnydd wedi ei beintio ac yna ei addurno a gwneud cordyn i'w gau.

Bethan ac Eirlys yn ein cyflwyno i ddefnydd toddiadwy oedd ein diwrnod mis Mawrth, a phawb yn mynd adre gyda broets blodyn, wedi ei gorffen tra yn y dosbarth (gweler y llun ar dudalen 8).

Eleri oedd yn gyfrifol am y blodau defnydd a waethom yn Ebrill, ac erbyn tri o'r gloch y pnawn roedd llond fôs o flodau lliwgar ar y bwrdd.

Diolch i bawb fu'n ein dysgu eleni.

Ar 9 Mai aethom ar ymweliad i gwrdd ag Ela Cerrigellgwm, Meistres y Gwisgoed, a chael te pnawn gyda hi ar ôl gweld a chlywed am ei gwaith yn gofalu am wisgoed yr Orsedd.

### **Swyddogion y Gymdeithas**

Sylfaenydd: Joyce Jones 01766 522085 joyce@stitch.co.uk

Llywydd Cenedlaethol: Brenda Wyn Jones 01248 600020

Cadeirydd: Anwen Bumby 01286 882430 a.bumby@btinternet.com

Is-gadeirydd: Esyllt Jones esyllt.jones@yahoo.com

Trysorydd: Mary Williams 01766 522466 cmw466@gmail.com

Is-drysorydd:

Ysgrifennydd: Nesta Jones 01678 540610 craigytan@btinternet.com

Rowena Evans 01678 520698 carysrowena@live.co.uk

Is-ysgrifennydd: Gwyneth Jones 01678 520813 feidiog12@gmail.com

Ysgrifennydd Aelodaeth: Gwenfyl Jones, 01745 890417 gwenfyljones@btinternet.com

Fe welwch nad oes gennym Is-drysorydd, os ydych yn fodlon gwirfoddoli i wneud y swydd, neu os gwyddoch am rywun arall fyddai'n fodlon ei gwneud, cysylltwch ag un o'r ddwy Ysgrifenyddes.

### **Cyfeiriadau Cysylltwyr Rhanbarthol**

#### **Môn ac Arfon**

Gladys Pritchard, Crud yr Awel, 6 Llain Fain, Caergybi, Ynys Mon LL65 1NF  
01407 762090 gladyspritchard@llainfain.freeserve.co.uk

#### **Y Gogledd Ddwyrain**

Mary Mars Lloyd, Llys y Bryn, Llanynys, Dinbych LL16 4ZV 01824 790276  
marymarslloyd@plus.com

#### **Y De Ddwyrain**

Marian Evans, 10 Windsor Road, Radur, Caerdydd 02920 843275

johnevans42@uwclub.net

### **Rhydaman**

Megan Bevan, Y Blewyn Glas, Porth y rhyd, Caerfyrddin SA328PR 01267 275461  
arfyingair@aol.com

### **Y Canolbarth**

Eryl Evans, 01970 820778 erylwe@yahoo.co.uk

### **Meirion**

Ann Roberts, 21 Maes y Bronydd, Bala LL23 7AN 01678 521376

### **Dwyfor**

Meinir Lloyd Jones, Llwyn Hudol, Penrhyndeudraeth LL48 6AW 01766 770745  
llwynhudol@btinternet.com

### **Gweithgareddau**

Mae croeso i bawb ymuno â'r holl weithgareddau – ond i chi gysylltu ymlaen llaw am fanylion ac i sicrhau bod lle!

### **Môn ac Arfon**

Cynhelir y cyrsiau i gyd am 10 y bore yn Nhan Lan, Bodorgan.  
Manylion pellach gan Gladys Pritchard 01407 762090.

5 Medi: Gweithdy Hannah Roberts

3 Hydref: Trefniadau i'w cadarnhau

7 Tachwedd: Pwrs i ddal sbectol neu drugareddau Megan Williams

5 Rhagfyr: Gweithdy Nadoligaidd Sue Williams

Ionawr 2016: Cinio Hen Galan

### **Y Gogledd Ddwyrain**

Cynhelir pob gweithdy yng Nghanolfan Awelon, Rhuthun o 10.00 yb. – 3.00 yp.

Mae angen rhoi enw ymlaen llaw i'r ysgrifennydd, Lis Lloyd Edwards ar 01745 815270.

19 Medi: Gwaith Shisha Mair Rees

17 Hydref: Clustog neu fag gyda sgwariau 'sandwich' Joan Salisbury a Gwenfyl Jones

14 Tachwedd: Anrheg Nadolig Mair Smith

9 Rhagfyr: Cinio Nadolig Lleoliad i'w drefnu

20 Chwefror 2016: Diwrnod Cymdeithasol - rhannu sgiliau

19 Mawrth: Llifo ac addurno sgarff sidan Margaret a Jen, Tregarth

16 Ebrill: 'Syrpreis' Bethan Pendelton ac Eirlys Savage

21 Mai: Trip

### **Y Canolbarth**

Cynhelir pob gweithgaredd yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre o 10.00 yb. – 4.00 yp.  
Manylion pellach gan Eryl Evans 01970 820778.

26 Medi: Tlysau o bob math

24 Hydref: Gorchudd llyfr Joan Phillips

9 Ionawr 2016: Ffeltio llun Beti Wyn Davies

13 Chwefror: Marmorï Delyth, Diana ac Eryl

9 Ebrill: Cau pen y mwdwl

## **Meirionnydd**

Cynhelir pob cyfarfod yng Nghanolfan Tegid, Y Bala o 10.30 y.b. – 3.30 y.p.

Os am fynychu cysylltwch â Mair Rees ar 01678 521343 neu Carys Williams ar 01490 420436

12 Medi: Gwaith peiriant

14 Tachwedd: Addurniadau Nadolig

30 Ionawr 2016: Brodio Swedaidd

23 Ebrill: Gorffen gwaith

## **Dwyfor**

Cynhelir pob gweithgaredd yn Neuadd yr Eglwys, Cricieth am 10.00 y bore.

Manylion pellach gan Meinir Lloyd Jones ar 01766 770745.

21 Tachwedd: I'w gadarnhau

16 Ionawr: I'w gadarnhau

## **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MEIFOD 2015**

Unwaith eto daeth yn amser i ni droi ein golygon tuag at Eisteddfod Genedlaethol arall ac eleni awn tuag at Faldwyn a Meifod. Diolch ymlaen llaw i bawb o ardal Y Bala sydd wedi cytuno i roi'r stodin i fyny a'i thynnu i lawr. Byddant yn ei gosod ddydd Gwener 31 Gorffennaf.

Fel y dywed y Cadeirydd, does dim thema ar gyfer gwaith i'w arddangos eleni ond er hynny gofynnir am waith newydd, sydd yn cyd-fynd ag egwyddorion y Gymdeithas. Mae pawb yn edrych ymlaen at weld arddangosfa liwgar unwaith yn rhagor.

Fel arfer hefyd bydd angen pethau i'w gwerthu ar y stondin. Yr hyn y gofynnir amdano yw darnau bychain o waith gydag amcan bris wedi'i nodi arno. Gobeithio'ch bod wedi cael cyfle i wneud tipyn o bethau gan fod y gwerthiant yn cyfrannu llawer tuag at gostau'r stondin.

Bydd croeso i unrhyw aelod werthu gwaith a fydd yn cael ei arddangos ar y stondin ond bydd yn rhaid rhoi pris yn glir arno, a hynny ar gefn y gwaith, nid ar y bag neu'r bocsy bydd yn dod ynddo.

Bydd angen rhoi gwybod i Gangen Y Bala erbyn canol mis Gorffennaf beth sydd ar gael ar gyfer yr arddangosfa a pha eitemau bychain sydd i'w gwerthu neu gallwch anfon y gwaith i Gwyneth Jones, Y Bala neu Joyce Jones.

Carwn atgoffa pob un sy'n rhoi gwaith i'w arddangos neu ei werthu y bydd yn rhaid iddi/iddo ddod i nôl y gwaith brynhawn Sadwrn olaf yr eisteddfod. Mae hyn yn hollbwysig, gan y gall amgylchiadau ei gwneud yn anodd dod â cherbyd i'r maes ar y diwrnod olaf – a hynny'n golygu ei bod yn anodd iawn i griw bach dynnu'r arddangosfa i lawr a chario popeth oddi ar y maes.

Rhag ofn y bydd perthynas neu ffrind yn casglu'r gwaith ar eich rhan, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod enw, ynghyd â chyfeiriad / cangen y perchennog, ar gefn pob darn o waith.

Rota

Fel y dywedwyd eisoes mae criw o ardal Y Bala'n barod i roi'r stodin i fyny a'i thynnu i lawr. Medrwn i gyd eu cynorthwyo drwy roi ychydig o'n hamser i weithio ar y stondin. Mae ffurflen gyda'r cylchlythyr hwn, fel arfer, i chi nodi pryd y gallwch fod yno.

Felly rydym yn gofyn yn garedig am wirfoddolwyr i weithio ar y stondin. Os buoch yno o'r blaen, byddwch yn cofio bod llawer o fynd a dod o gwmpas y stondin gan bod lle

hwylus i gael coffi a theisen o'n blaenau! Cyfleus iawn ar ein cyfer ni'n hunain adeg toriad! Ond da iawn i'r raffl hefyd – oherwydd bod llawer o bobl o gwmpas i brynu!!

Bydd angen 16 o ofalwyr bob dydd, o'r Sadwrn cyntaf (1af Awst) hyd at y dydd Sadwrn canlynol (8fed Awst), sy'n gwneud cyfanswm o **136** i gyd. Gobeithio felly y bydd nifer go dda ohonoch yn fodlon helpu i hyrwyddo gwaith y Gymdeithas fel hyn. Rydym yn dibynnu ar ein gwirfoddolwyr i warchod y stondin, felly, os oes gennych amser yn sbâr, cofiwch roi eich enw i lawr – hyd yn oed os na allwch aros am ddim ond rhyw awr.

### Raffl

Bydd tocynnau raffl ar werth am £1 yr un, gyda'r tocynnau buddugol yn cael eu tynnu brynhawn Sadwrn olaf yr eisteddfod ar stondin y Gymdeithas ar y maes. Eleni cynigir dwy wobr, sef 'Brodwaith Creadigol yn seiliedig ar waith Kate Roberts' a 'Modiwletor'. Diolch i'r rhai fu'n pwytho am eu gwaith. Eleni eto fe ddsbarthwyd rhai o'r tocynnau raffl yn y pwyllgor blynyddol ym mis Mai. Gobeithio fod rhai ohonoch wedi medru gwerthu rhai'n barod.

Mae'n rhaid i ni gofio mor bwysig yw i bawb, naill ai'r rhai sy'n gwirfoddoli ar y stondin neu wedi derbyn tocynnau'n barod, i fynd ati o ddifrif i werthu'r tocynnau raffl. Oni bai am y raffl, ni fyddai'r Gymdeithas yn gallu fforddio talu am y stondin. A chofiwch mai unrhyw elw a wnawn sy'n ein galluogi i gynnig ysgoloriaeth i fyfyrwyr ac i'n haelodau.

### Apêl

Ein apêl, felly, yw ar i gynifer â phosib ddod i gynnal gwaith y Gymdeithas yn yr Eisteddfod. Mae'n gyfle i weld llawer iawn o hen ffrindiau – a gwneud rhai newydd. Mae'n gyfle hefyd i godi swm da o arian sy'n ein galluogi i gefnogi ein prif \$yl ddiwylliannol. Diolch i chi ymlaen llaw – edrychwn ymlaen at eich gweld yno. A chofiwch hefyd i ddod i Gyfarfod blynyddol y Gymdeithas.

### Y Cyfarfod Blynyddol

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol eleni ar fore dydd Mercher 5 Awst am 11:30 ym Mhabell y Cymdeithas am awr yn unig. Fe geisiwyd newid y dyddiad, ond dyna'r unig amser oedd ar gael.

Os oes mater y dymunwch ei godi yn y Cyfarfod, cysylltwch ag un o'r Ysgrifenyddion ymlaen llaw. Eleni eto mae pob mudiad wedi cael gwybod fod yn rhaid cadw at yr amseroedd, felly bydd yn rhaid cadw at y rhaglen.

### Aelodaeth

Y ffordd fwyaf cyfleus o dalu eich tâl aelodaeth yw trwy archeb banc, am fod yn rhaid anfon ffurflen bob blwyddyn at y rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Diolch i Gwenfyl Jones am gytuno i fod yn Ysgrifennydd Aelodaeth yn lle Anwen. Bydd Gwenfyl yn dechrau ar y gwaith yn swyddogol yn yr haf ond gellir cysylltu â hi ar e-bost ar [gwenfyljones@btinternet.com](mailto:gwenfyljones@btinternet.com) o hyn ymlaen.

Gofynnir i bob Cangen anfon enwau a thâl aelodaeth ei haelodau gyda'i gilydd i hwyluso'r gwaith gweinyddol.

Gobeithio'ch bod i gyd yn cenhadu er mwyn denu rhagor o aelodau, fel y gwnaeth Cangen Môn ac Arfon!

### Cyfeiriad e-bost

Fe wyddoch i gyd fod costau postio bellach yn eithafol. Felly mae gallu torri i lawr ar ein costau mewn unrhyw fodd yn mynd i fod o help mawr i ni fel Cymdeithas. Un ffordd i wneud hyn fyddai cael cyfeiriad e-bost cymaint ag sy'n bosibl o'n haelodau er mwyn i ni fedru e-

bostio'r cylchlythyr ac unrhyw wybodaeth arall iddynt. Felly plîs, plîs, plîs! anfonwch eich cyfeiriad e-bost i'r Ysgrifennydd Aelodaeth, sef Gwenfyl ar [gwenfyljones@btinternet.com](mailto:gwenfyljones@btinternet.com)

### **Bwrsari ar gyfer ein haelodau**

Cofiwch fod y Gymdeithas yn cynnig arian i aelodau i'w galluogi i ddilyn cwrs hyfforddiant o 1, 2 neu 3 diwrnod mewn maes brodwaith o'u dewis.

Byddai'n braf cael nifer ohonoch yn ymgeisio. Pe byddech yn llwyddiannus, byddai disgwyl i chi gynnal nifer bychan o weithdai ar ôl cwblhau'r cwrs, er mwyn rhannu'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu gydag aelodau eraill y Gymdeithas.

Cofiwch fod y cymorth yma'n agored i bob oed. Felly beth amdani? Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r Ysgrifennydd ar unwaith.

### **Ysgoloriaeth**

Mae'n drueni na fu'n bosibl cynnig yr Ysgoloriaeth eleni – siomiant mawr i bawb rwy'n siŵr. Os gwyddoch chi am unrhyw un a allai fod yn gymwys i dderbyn yr Ysgoloriaeth, anogwch nhw i gysylltu ag un o'r Swyddogion am fwy o wybodaeth.

### **Y Cwrs preswyl**

Fel y cyfeiriodd Nesta, dyddiad y cwrs y flwyddyn nesaf yw 5-6 Mawrth ac rydym wedi bod yn lwcus iawn i gael Cefyn Burgess i ddod atom yn diwtor. 'Adeiladau' fydd y testun ac edrychwn ymlaen am benwythnos difyr tros ben.

### **Lluniau Lliwgar**

Fe sylwch fod y clawr a'r cefn bellach yn cael ei gyhoeddi mewn lliw a gobeithio'ch bod yn mwynhau'r edrychiad newydd.

Felly os ydych chi'n cynnal gweithgaredd o unrhyw fath, fedrwch chi wneud yn siŵr fod rhywun o'r criw'n tynnu digon o luniau a'u hanfon i'r golygydd. Diolch

### **Dyddiau i'w Cofio**

**1 Mehefin:** dyddiad cau ar gyfer rhifyn yr haf Aur Winiadau

**21 Gorffennaf:** dylai pob Cangen anfon ei mantolen at y Trysorydd.

**5 Awst:** Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym Mhabell y Cymdeithasau.

**30 Tachwedd:** dylai pob Cangen fod wedi anfon rhestr o gyfeiriadau ei haelodau at yr Ysgrifennydd Aelodaeth. Mae angen i aelodau unigol anfon eu cyfeiriadau ati hefyd.

**31 Rhagfyr:** dyddiad cau ar gyfer rhifyn y gaeaf o Aur Winiadau.

**31 Ionawr:** y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am ysgoloriaeth y gymdeithas i fyfyrwyr.

**Ebrill:** dyddiad a lleoliad y pwyllgor blynyddol i'w benderfynu'n y Cyfarfod Blynyddol.

Mwy o wybodaeth yn rhifyn y gaeaf o Aur Winiadau.

### **Defnyddiau Brodio – rhatach!**

Cytunodd y siopau canlynol i gynnig gostyngiad i aelodau'r Gymdeithas, dim ond ichi ddangos eich tocyn aelodaeth. Os gwyddoch chi am unrhyw siop fyddai'n fodlon bod ar y rhestr, yna byddai eich cysylltydd lleol yn falch iawn o glywed gennych. Diolch i'r rhai ohonoch sy'n gwneud yn siŵr fod y rhestr hon yn cael ei diweddarau'n gyson.

Canolfan Grefftau Tan Lan, Bodorgan, Ynys Môn

Kit 'N Kaboodle, Adeiladau'r Banc, Breeze Hill, Benllech, Ynys Môn

Kit 'N Kaboodle, T# Menai, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll, Ynys Môn

Silken Strands, 20 Y Rhos, Bangor (dim disgownt, ond prisiau rhesymol iawn)

Siop D.E., Y Bala

The Cross Stitch Shop, 5, Heol Caerfyrddin, Llandeilo 01558 822282 (gwasanaeth post)

*Captions i'r lluniau*

Dyma enghraifft o waith Cangen y Gogledd Ddwyrain ddydd Sadwrn 7 Mawrth. Bu pawb yn brysur iawn ac wedi mynd adref gyda thlws wedi'i orffen.

Gwenfyl Jones a Joan Salisbury mor ddiwyd ag erioed yn y cwrs yn Nhan-y-Bwlch.

Un enghraifft o'r brodwaith welodd Cangen Môn ac Arfon ar eu taith i'r Ardd Fotaneg  
Cwrs Preswyl Plas Tanybwllch

5 – 6 Mawrth, 2016

Adeiladau

Tiwtor: Cefyn Burgess

Enw a blaendal o £50 erbyn 31 Ionawr i

Gwyneth Jones, Feidiog, 12 Maes Tegid,

Y Bala LL23 7BF

Ffôn: 01678 520813

E-bosr: feidiog12@gmail.com

Golygydd y cylchlythyr: Margaret Griffith, Dwyfach, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53  
6TF

Ffôn: 01766 810513 E-bost: m.griffith901@btinternet.com

Cyhoeddir gan Gymdeithas Brodwaith Cymru

Argraffwyd gan Gair am Air, Chwilog, Pwllheli